



Papur Pawb

Pris: 50c

Tachwedd 2011

Rhif 373

tud 3
Pobl a Phethe

tud 4 / 6
Ysgolion

tud 10
Y Llew Du ar fin
ail-agor

tud 12
Chwaraeon

Parti yn y Llew Pinc



Codwyd y swm aruthrol o £4,025 gan fynychwyr y Llew Gwyn, Tal-y-bont mewn Parti Pinc diweddar a drefnwyd gan Sean a Nicky Byrne a'r teulu. Cyflwynwyd yr arian i wardiau Owain Glyndwr a Meurig yn Ysbyty Bronglais a'r Adran Cemothherapi lle bu Sean yn derbyn triniaeth am gancr yn ddiweddar. Dymuna Nicky ddiolch o galon i'r holl bobl leol am eu cefnogaeth, yn enwedig y rhai fu'n gwisgo dillad a wigiau pinc ar gyfer y digwyddiad, a'r dynion wnaeth gytuno i gael eu 'waccio' er mwyn i'r achos da.



Dyma lun o'r tân difrifol a gydiodd yn yr helm wair ar Ffald Pempopren ar Dachwedd y Sed. Dychrynwyd y teulu a'r trigolion lleol gan ffyrnigrwydd y tân, a mawr yw'r diolch na chafodd neb ei anafu yn y digwyddiad. Daeth tair injan dân i geisio diffodd y fflamau a bu'r olion yn mud-losgi am oriau. Hyd yma nid oes prawf o achos y tân wedi dod i'r golwg.

Patshyn Plant yn y Fantol

Mae dyfodol y Patsyn Plant ym Maes-y-deri yn dal yn y fantol wrth i Bapur Pawb fynd i'w wely. Mae Liz Jones-Hughes yn brysur yn ymchwilio i'r posibiliadau o gofrestru'r safle fel Patsyn Glas Pentrefol (Village Green). Cyflwynodd gais furfiol i'r Cyngor Sir gyda thystiolaeth oddi wrth llawer o drigolion lleol o'r defnydd a wnaed gan blant y pentref ohonno fel maes chwarae. Mae'r cais yn dal i aros i gael ei gofrestru'n ffurfiol cyn gall y broses o'i asesu gan fargyfreithiwr annibynnol ddechrau. Deallir y bydd cyfle i'r Cyngor Cymuned a phobl leol gyflwyno tystiolaeth pellach yn ystod yr ymchwiliad. Ni fydd modd ddechrau unrhyw ddatblygiad nes bydd y mater yma wedi'i ddatrys.

Lle mae'r datblygiad tai arfaethedig yn y cwestiwn, cynhaliwyd Cyfarfod Safle ym Maes-y-deri ar 27 Medi, ar gais Cyng Ellen ap Gwynn, pan gafodd llawer o drigolion lleol y cyfle i rhoi eu safbwyntiau gerbron. Penderfyniad y panel oedd bod 6 o dai yn or-ddatblygiad a'u bod yn argymhell i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu y dylid gostwng y nifer i bedwar. Pan ddaeth y cais o flaen y Pwyllgor ar 12 Hydref, cyflwynodd Cyng Ellen ap Gwynn achos gref na ddylid datblygu'r union safle dan sylw oherwydd rhesymau megis mynediad, gor-ddatblygiad, lleihau'r nifer o lefydd parcio tu cefn i'r tai presennol yn golygu mwy o barcio ar y ffordd yn creu rhwystr i llif y traffig. Yn ben-naf, tanlinellodd y defnydd cyson dros gyfnod hir o flynyddoedd, a wnaed gan blant y stad a'r pentref

o'r ardal fel maes chwarae anfurfio. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Cyngor Sir wedi mynnu dal gafael ar y tir yng nghefn y stad a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer rhagor o dai cymdeithasol, wrth drosglwyddo'r stad i Tai Ceredigion. Golyga hyn, y byddai'n rhaid iddynt bellach brynu'r tir ar bris y farchnad pe byddant am ddatblygu ymhellach. Nododd na fyddai unrhyw wrthwynebiad pe byddai'r tai yn cael eu codi yn y fan hynny.

Er i'r swyddogion gynnig bod lle i 5 o dai, cynigiodd Cyng Ray Quant, aelod o'r Panel Safle, y dylid aros gyda'u hargymhelliad gwreiddiol o 4 o dai. Cynigiwyd gwelliant gan y Cyng Ian ap Dewi na ddylid datblygu ar y safle o gwbl ond yn hytrach ar y tir yng nghefn y stad. Pan aeth y mater i bleidlais roedd hi ben ben a bu'n rhaid i'r Cadeirydd ddefnyddio ei bleidlais fwrw. Gan ei fod yn aelod o'r Panel Safle cefnogodd y penderfyniad i godi 4 o dai. Y sefyllfa bellach yw fod gan Tai Ceredigion ganiatad i godi 4 o dai ar y safle.

Mae adroddiad yr Hwylusydd Tai Gwledig ar yr angen am dai cymdeithasol ar rent gan pobl leol yn dal heb ddod i law. Y gobaithyw y bydd yr adroddiad hwnnw, a'r Polisi Gosod Tai Gwledig, a gyflwynwyd gan y Cyng Ellen ap Gwynn, wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Sir. Os ceir cefnogaeth iddo, golygir y caiff flaenoriaeth ei roi i bobl leol sydd fwyaf angen tai ar rhent ac sydd wedi byw yn yr ardal am fwy na 5 mlynedd.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781312
Maes-y-deri:		
Parsel Henlllys:		
Bont-goch:		
Tre Taliesin:		
Tre'r-ddôl:		
Eglwysfach/Ffwrnais:		
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Is-gadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Ysgrifennydd:	Siân Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd; Susan Lewis; Gwenllian Parry-Jones	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batri a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Nos Fercher 21 Rhagfyr
Am 8.00 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

Sioe Tal-y-bont CINIO BLYNYDDOL

Gwesty'r Llew Du,
Tal-y-bont

Nos Sadwrn, 3 Rhagfyr
2011

Enwau i Dilys Morgan
(01970 832498)

erbyn 15 Tachwedd

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN

Cynhelir Cyfarfod
Blynyddol
Yn y Cartref

Nos Fercher 30 Tachwedd

Am 7.00 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb

Dyddiadur

Tachwedd

13 Neuadd Goffa 10.45

Gwasanaeth Sul y Cofio

Bethel 2 Parch J.Tudno
Williams

Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 10 Bugail (C)

17 Sefydliad y Merched,
Tal-y-bont

Neuadd Goffa 2 o'r gloch

Teithio yn Iwerddon
(Steve Evans)

19 Ystafell Haeam,
Eglwysfach
Cwis 7.30

19 Cylch Meithrin Tal-y-bont
Noson Goffi 6.30 Neuadd
Goffa

20 Bethel 10 Delyth
Morgans (C)
Nasareth Uno ym Methel

Rehoboth 10 Rhidian
Griffiths

21 Neuadd Goffa, Tal-y-bont
Merched y Wawr
Cwmni Bodlon (Nia
Evans)

24 Os Mets
Gwibdaith

26 Neuadd Goffa, Tal-y-bont
Ffair Nadolig 2 o'r gloch

27 Bethel 2 Gweinidog

Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 5 Bugail

Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Teuluol

30 Ffrindiau Cartref
Tregarddan

Cyfarfod Blynyddol 7

Rhagfyr

3 Sioe Tal-y-bont Cinio
Blynyddol

Gwesty'r Llew Du

4 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 5 Bugail

7 Neuadd Goffa, Tal-y-bont
Os Mets 7 o'r gloch
Cerdyn, Crefft a Chan

8 Sefydliad y Merched,
Tal-y-bont
Coginio Nadoligaidd
Bwffe (Margaret
Griffiths)

11 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth Oedfa'r Plant
(Garn)

Rehoboth Oedfa'r Plant

21 Cymdeithas Sioe
Tal-y-bont
Gyrfa Chwist Dofednod 8
(Neuadd Goffa)

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Ffair Nadolig

Dydd Sadwrn 26
Tachwedd

2.00 o'r gloch

Oedolion £1

Plant ysgol gynradd am
ddim

Croeso cynnes i bawb

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Glenys
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont
(01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod
cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil Davies a Megan
Mai, gyda Sion Pennant yn dylunio. Golygyddion Mis
Rhagfyr fydd Bleddyn a Delyth Huws, Henllan Tal-
y-bont (01970 832448; huws.henllan@btinternet.
com), gyda Iolo ap Gwynn yn dylunio. Y dyddiad olaf
i dderbyn newyddion fydd dydd Gwener 2 Rhagfyr, a
bydd y papur ar werth ar 9 Rhagfyr.

Ysgol Sul Bethel

Fore Sul, 6 Tachwedd cafodd Beca Fflur Fleming Jenkins, aelod ffyddlon o Ysgol Sul Bethel, ei bedyddio gan y Parch R Lewis mewn oedfa deulu. Roedd nifer o aelodau yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth ynghyd â phlant a phobl ifanc yr Ysgol Sul. Perfformiodd y plant addasiad Eleri Huws o stori Iesu'n croesawu plant ato. Yna, gyda Lois yn cyfeilio, canodd y plant gan arbenig i Beca. Ar ol yr oedfa mwynhawyd cwpaned a chacen.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £156.30. Roedd y trefniadau yng ngofal Olwen Rowlands, Carys Briddon ac Owen Jenkins.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Gareth Wyn Jones (Pant-coch), 2 Maescletwr, Tre'r Ddôl a fu farw ar Dachwedd y cynhtaf yn Ysbyty Bronglais.

Gwlad Beirdd

Faint ohonoch welodd T E Nicholas (Niclas y Glais) yn cael ei gyfweld y tu allan i Gapel Nazareth yn yr 1960au ar y rhagen Gwlad Beirdd. Cafwyd golygfa o wasanaeth y tu mewn i'r Capel ac roedd nifer o'r aelodau i'w gweld yn glir o gwmpas y bardd wrth iddo sôn am ei ddaliadau, wrth ymadael.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Nerys Roberts, 90 Maes-y-deri, Tal-y-bont, ar lwyddo yn ei phrawf gyrru'n ddiweddar.

Gwefan Ruth Jên

Os am gael golwg ar waith Ruth Jên nid oes raid i chi bicio heibo'r gweithdy yn yr Hen Siop Sgidie yn Nhal-ybont. Erbyn hyn, medrwyh ymweld â gefan Ruth, sef <http://www.ruthjen.co.uk> lle mae'r artist yn rhoi sylw arbennig i'r gwaith sy'n seiliedig ar 'Fenywod Cymru'. Ceir yno ddetholiad o waith gwreiddiol, torluniau leino ac argraffiadau cyfyngedig.

Sêr y Teledu

Medi James, Llanerch, Tal-y-bont oedd gwestai arbennig Wedi 3 ar S4C yn ddiweddar lle cafwyd cyfle i'w chlywed yn trafod ei hoff lyfrau. Dyma'r teitlau a ddewiswyd ganddi: 'Fel Aderyn',

Pobl a Phethe



Priodwyd Kate, merch George a Sheila Barron, Brynawel, Tal-y-bont ag Arwyn Jones, mab Gwynfor ac Awen Jones, Bryngwyn, Llanfairpwllgwyngyll yng Ngwesty Seiont Manor, Llanrug ar 28 Awst. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

Manon Steffan Ros; 'The Gift', Carol Ann Duffy a Rob Ryan; 'Blwyddyn yn Llŷn', R S Thomas, 'A Writer's House in Wales', Jan Morris. Roedd clywed sylwadau difyr Medi yn codi awydd arnom i ddarllen y llyfrau neu i brynu copiau yn anrhegion Nadolig.

Yn y cyfamser roedd Dilys Morgan i'w gweld yn serennu ar 'Kirstie's Homemade Britain' ar Channel 4. Fe wnaeth Kirstie Allsopp ymweld ag Alltgoch lle holwyd Dilys a'i dangos yn gwneud peth o'r gwaith a enillodd iddi y brif wobwr am grefft yn Sioe Llanelwedd (croesbwyth oedd wedi cymryd 9 mis i'w gwblhau) a sawl gwobr gyntaf arall, yn cynnwys cerdyn cyfarch (i Gareth a Gaenor William Jones ar eu priodas ruddem).

Penblwydd Hapus yn hwyr

Penblwydd hapus iawn i Susan Rowlands, Erglodd, a

oedd yn 40 oed ar 30 Hydref eleni. Gobeithio i ti gael diwrnod arbennig Susan.

Os Mêts

Nos Iau, Hydref 20, dan arweiniad Efan Williams, cynhaliodd aelodau OS METS wasanaeth diolchgarwch yng nghartref Tregerddan. Un o'r rhai a gymerodd ran oedd Sion Nemes, Dolau Gwyn, Tre'r Ddôl. Da iawn ti Sion am roi dy amser er lles eraill.

Croeso

Croeso cynnes i'r artist Jenny Fell a fydd yn symud i fyw i 18 Penceae, Tre Taliesin yn ystod mis Tachwedd. Gobeithio y byddi di'n mwynhau byw yma, Jenny.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Libby Goodman, Ysgubor y Tylluan, Glandyfi sydd wedi colli ei mam yn diweddar. Hefyd a theulu'r diweddar Gareth Jones, tre'r Ddôl.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Mary a Duncan Kerridge, Y Bwthyn, Glandyfi sydd wedi cael merch yn ddiweddar, chwaer i Poppy a Dylan.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimladau i Alison Swanson, Cefn Sidan, Ffwrnais sydd wedi colli ei gwr Billy ar 23 Hydref. Fe ymladdodd ei salwch yn ddewr am ddwy flynedd. Roedd Billy yn rheolwr yn 'Bolloms, Dry Cleane' am amser hir cyn dechrau busnes ei hun. Mi oedd e'n dad annwyl i Jennifer, Craig a Martin a thad-cu i Billy, Jessica and Sasha.

Cronfa Macmillan

Da iawn i Sara Mackenna, Plas Einion, Ffwrnais a Becky Knight ei ffrind o'r Borth sydd wedi trefnu te prynhawn yn Llanfach, Taliesin i godi arian tuag at Cronfa Macmillan ar diwedd Mis Medi. Fe godwyd cyfanswm o £800 sef £300 ar y p'nawn a £500 yn rhodd gan Dulas Engineering, Machynlleth

Brysiwch Wella

Brysiwch wella i Mrs Marjorie Cookson, Tan y bryn, Eglwysfach sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar

Ystafell Haearn

Mae Ellen Ap Gwynn a Chris Fuller, Ffwrnais wedi bod yn recordio slot ar Wedi 3 i sôn am Ystafell Haearn, Eglwysfach. Mi fydd y rhaglen ar y teledu yn y flwyddyn Newydd. Cofiwch hefyd am y Cwis ar 19 Tachwedd.

Damwain

Dymunwn adferiad llwyr i Kevin, Emma, Niamh a Lili O'Brien, Cytringham, Tal-y-bont yn dilyn eu damwain car yng Nghorris ar 16 Hydref. Braff deall fod Niamh wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn a bod gweddill y teulu yn gwellla.

Llwyddiant Dylunio

Dewiswyd prosiect gan Lefi Jones, Gellimanwydd, yn un o 30 'Gwobr Arloesedd CBAC' i ddathlu gwaith dylunio a thechnoleg dyfeisgar a gwahanol. Dyfeisiodd Lefi gadair symudol ar gyfer y traeth sydd hefyd yn gallu trosglwyddo cyfarpar. Ardangoswyd y gwaith yn Venue Cymru, Llandudno a Stadiwm Swalec, Caerdydd.

YSGOL TAL-Y-BONT



Dathlwyd diwrnod T.Llew Jones yn yr ysgol ar yr 11eg o Fedi. Gwisgodd y plant fel cymeriadau o'i lyfrau. Mwynheuom ddysgu am ei waith a'i fywyd, ceginio 'cacennau dathlu' a gwyllo ffilm 'Dirgelwch yr Ogof.'



Ar ddydd Mercher y 12ed o Hydref, aeth blynyddoedd 3,4,5 a 6 i Ysgol Craig yr Wylfa i ymarfer opra o'r enw Noye's Fludde. Yr wythnos wedyn aethom i Ganolfan y Celfyddydau i ymarfer. Y cyfarwyddwyr oedd Clare Williams, y corws feistr oedd Mervyn Cousins a'r arweinydd oedd Nicholas Cleobury. Yn ystod y perfformiad roedd angen i ni ganu llawer o ganeuon newydd tra'n gwisgo pyjamas, slippers a chario fflachlamp. Roedd yna lot o bobl yn ein gwyllo ni a 180 o blant ar y llwyfan yn perfformio. Ein hoff ddarn ni oedd yr enfys yn codi. Byddwn yn cofio'r profiad am byth.



Daeth disgyblion, rhieni a chyfeillion ysgolion Tal-y-bont, Llangynfelyn a Chraig yr Wylfa ynghyd yng nghapel Rehoboth ar y 6ed o Fedi er mwyn cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch. Mwynheuwyd eitemau amrywiol gan y dair ysgol. Diolch hefyd i Efan Williams am annerch.



Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd ar y 7fed o Fedi. Llongyfarchiadau arbennig i Dylan Wyn, Tia a Bedwyr fydd nawr yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Ceredigion.



Yn rhinwedd ei swydd fel Llyfrgellydd Plant Ceredigion, daeth Delyth Huws i ymweld â'r ysgol yn ddiweddar. Fel rhan o gynllun darllen 'Sêr y Syrcas' gwobrwyodd y disgyblion hynny a fynychodd y llyfrgell yn gyson dros wyliau'r haf.

Bedwyr, Aled a Tomos



Cynhaliwyd digwyddiad cyffrous yn Aberystwyth dros wyliau hanner tymor sef gŵyl Ffoto.Aber – cyfres o ddigwyddiadau yn ymwneud â ffotograffiaeth. Fel rhan o'r wyl cynhaliwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth. Llongyfarchiadau i Glain Llwyd Davies am ennill y gystadleuaeth ac i Billy Swanson a Miriam Davies am ennill canmoliaeth uchel gan y beirniaid. Mae'r ffotograffiau i'w gweld yng Nghanolfan Arad Goch tan ddiwedd y mis.

Gorffwys ar ôl 37 mlynedd

Go brin y buasai Gwilym ac Eleri Huws wedi dychmygu pan aethant ati i baratoi'r rhifyn cyntaf o Papur Pawb ym 1974 y buasent yn dal wrthi yn golygu rhifynnau o'r Papur 37 mlynedd yn ddiweddarach. Mae'r cylch yn gyflawn, fodd bynnag ac mae golygyddion Rhif 1 (Hydref 1974) newydd ymddeol o'r tîm golygyddol, gydag ymddangosiad Rhif 372 (Hydref 2011).

Cyhoeddi 3 rhifyn i gychwyn, fel arbrawf oedd y bwriad ym 1974, gyda Robat Y Lolfa yn cynnig argraffu'r rhifynnau hynny am ddim. Bu'r arbrawf yn llwyddiant, wrth gwrs, a gwobr Gwilym ac Eleri oedd golygu 60 rhifyn cyntaf y Papur. Yn hwyrach ymlaen, wrth i'r Papur fabwysiadu trefn o olygyddion gwahanol bob mis fe wnaethant ail ymuno â'r rhengoedd gan olygu 27 o rifynnau eraill dros y blynyddoedd. Cawsant 10 mlynedd wrth y llyw hefyd fel golygyddion cyffredinol rhwng 1996 a 2006.

Wrth holi Gwilym ac Eleri am y dyddiau cynnar fe ddaeth yn amlwg mai criw bychan ymroddedig a fu'n gyfrifol am hel y deunydd, a hynny heb e-bost na chamera digidol. Rhaid oedd taro heibio'r gohebyddion, fel Gwen Davies, Dolcletwr, neu Avarinah Jones, Eglwys Fach i gasglu'r newyddion a golygu'r cyfan er mwyn i Rita neu Aileen ei deipio. Byddai'r testun yn cael ei deipio mewn colofnau a'i ludo ar gerdyn yn barod i'r wasg, jobyn ar gyfer bwrdd y gegin (ar ôl i'r plant fynd i'r gwely!)

Dychmygwch chwe mlynedd o hel newyddion, ateb y ffôn, paratoi'r testun, tynnu lluniau, cywiro deunydd, darllen profileni, a hyd yn oed gludo'r cyfan ar gyfer y wasg. Yna dychmygwch boeni bob tro y byddai'r ffôn yn canu bore cyhoeddi'r Papur rhag ofn bod rhywun yno'n cwyno neu'n tynnu sylw at gamgymeriad.

Pan mae Gwilym ac Eleri yn cymharu'r rhifynnau cynnar gyda'r rhifynnau diweddaraf yr hyn sydd yn eu taro'n syth yw'r diwyg proffesiynol a safon y lluniau erbyn hyn. Siôn Myrddin oedd y ffotograffydd swyddogol cyntaf, a rhaid oedd mynd â'r ffilim i Aberystwyth i'w ddat-



blygu cyn medru dewis lluniau addas. Anaml y byddai'r llun o'r maint cywir ar gyfer y gofod a adawyd a gwaith llafurus i'r Lolfa oedd chwyddo neu leihau'r lluniau yn ôl y gofyn. Erbyn hyn, mae camerau digidol gan yr holl gyfranwyr bron, a'r lluniau'n cyrraedd trwy e-bost. Roedd yr hen ddull o osod yn dal i gael ei ddefnyddio tan ganol yr 1990au, ond wrth i'r gosod ar gyfrifiadu'r ddod yn arferiad gwelwyd gwelliant aruthrol yn niwyg y Papur. Bellach mae'r tudalennau lliw wedi gweddnewid y Papur.

Er eu bod yn rhoi'r gorau iddi, mae'r ddau yn cyfaddef iddynt gael pleser anghyffredin yn golygu'r Papur. Maent yn ddiolchgar am y gefnogaeth anghygoel a gawsant ar hyd y blynyddoedd. Mae gweld yr holl wirfoddolwyr sy'n ysgwyddo'r baich erbyn hyn yn galondid i'r ddau, ac maent yn hapus fod y Papur mewn dwylo diogel.

Rhaid atgoffa ein hunain taw Papur Pawb oedd Papur Bro cyntaf Cymru. Diolch i'r arloeswyr cynnar megis Gwilym ac Eleri mae gan Gymru rwydwaith o bapurau bro bellach sy'n adlewyrchu eu cymunedau. Diolch i'r ddau am eu eu harweiniad a'u hymroddiad ar hyd y blynyddoedd. Yn ôl y Golygydd Cyf-

fredinol presennol, Gwyn Jenkins, "Gweledigaeth", 'dyfalbarhad', 'sensitifrwydd', 'perffeithrwydd', 'nabod yr ardal a'i phobl', dyna sy'n dod i'r meddwl wrth ystyried holl gyfraniad Gwilym ac Eleri i'r papur dros flynyddoedd lawer. A gwnaed y cyfan yn gwbl ddiymhongar. Pan welwch chi nhw ar y stryd, cofiwch ddiolch iddynt!"

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553



Y lori a Môn Williams

Rhagor am Nant-y-Moch

Diddorol oedd darllen erthygl Gwilym Huws am ffordd Nant-y-Moch. Tra'n chwilio am y llun o chwarel yr Hafan daeth y llun yma i'r golwg. Cafodd ei dynnu ym 1960 yng nghyffiniau Capel Tabor. Dyma un o'r lorïau a ddefnyddid i gario cerrig o'r Hafan i Nant-y-Moch.

Mae'n debyg i frêcs y lori fethu tra'n dod i lawr o'r Hafan. Wrth edrych ar ei chyflwr mae'n debyg iddi lwyddo i stopio, a hynny'n sydyn! Yn ôl y stori ar y pryd daeth y gyrrwr allan ohoni gan ddim ond torri'i fys.

Yn y llun fe welir y diweddar Môn Williams o Dal-y-bont. Er nad oedd ganddo gysylltiad â'r ddamwain digwyddodd fynd heibio a neidiodd i mewn i'r cab i gael tynnu'i lun.

Efallai nad oedd gan Môn ran yn nhranc y lori ond bu mewn damwain reit ddifrifol ei hunan. Ar y pryd roedd yn byw yn Anwyllfan (Garreg Lwyd erbyn heddiw). Ar un adeg roedd pwmp petrol gyferbyn â'r patsyn glas ar gornel Stryd Pant y Calch. Roedd seler o dan y tŷ bryd hynny. Un noswaith aeth Môn i lawer i'r seler a phan daniodd tatsien bu ffrwydriad anferth a dioddefodd Môn losgiadau difrifol. Bu'n ffodus i oroesi'r danchwa. Mae'n debyg fod gweddillion petrol wedi treiddio o'r tanc ac i mewn i'r seler.

Mae llawer o drigolion yr ardal yn cofio'r digwyddiad ond methais hyd yma gael dyddiad pendant. Roedd rywbryd o'r pumdegau hwyr i'r chwedegau cynnar. Tybed a ddaw rhyw fanlyon o blith y darllenwyr? John Evans



Aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i'r Ganolfan Hamdden i weld a chymeryd rhan yn y sioe *Sbri-di-ri*. Cawsont eu diddanu gan Gwenda Owen a daeth Sali Mali a Mr Urdd draw i weld y plant. Roedd y plant wrth eu bodd yn canu a dawnsio gyda chriw mawr o blant bach ardal Aberystwyth.

Croeso

Croeso mawr i Levi Way i Ysgol Llangynfelyn. Gobeithiwn dy fydd yn hapus iawn ym Mlwyddyn 3 gyda ni.

Gwasanaeth Tân a'r Heddlu

Daeth aelodau o'r Gwasanaeth Tân a'r Heddlu i Ddosbarth Miss Jones yn ddiweddar i atgoffa'r plant am fod yn saff gyda than gwyllt. Dysgodd y plant pwsigrydd gadw draw o dân gwyllt ac i fod yn ofalus iawn gyda sbarcllys.

Rhif a Chwarae

Braf iawn oedd gweld criw mawr o rieni a phlant bach o 2½ i bedair oed yn yr ysgol am dri sesiwn o Rif a Chwarae. Dan ofal Mrs Nelmes bu'r plant a'r rhieni yn canu caneuon, yn gwrandao ar storïau ac yn gwneud gweithgareddau crefft. Cafwyd cyfle da i gael sgwrs a phaned a chwrdd â phlant bach yr ardal.



Sêr y Syrcas

Daeth Mrs Delyth Huws, o'r Llyfrgell yn Aberystwyth, i'r ysgol i gyflwyno medalau arbennig i ddau o blant yr ysgol am orffen cynllun darllen gwyliau haf y Llyfrgell. Llwyddodd Zeb Rowell a Seamus Byrne i orffen y cynllun drwy fenthgyl llyfrau o'r llyfrgell chwe gwaith yn ystod yr haf. Bu plant eraill, yn cymeryd rhan yn y cynllun hefyd yn y Llyfrgell ym Machynlleth. Cawson nhw eu medalau hwy yn ystod y gwyliau.

Trawsgwlad

Aeth disgyblion Dosbarth Miss Jones i gyd i Gaeau'r Ficerdy i gymeryd rhan yng nghystadleuaeth draws gwlad Ardal Aberystwyth. Llwyddodd Jac Jones i ddod yn 6ed yn y ras i fechgyn Blwyddyn 5. Bydd Jac yn cynrychioli Ardal Aberystwyth yn y rownd nesaf yn Llan-gnannog. Llongyfarchiadau mawr i ti Jac am redeg mor dda!

Ysgol Llangynfelyn



Daeth plant yr ysgol fel môr ladron, ysbiwyr a sipsiwn i'r ysgol i ddathlu diwrnod arbennig i gofio am yr awdur T Llew Jones. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn gwneud gweithgareddau am fôr ladron yn ystod y dydd a dysgodd y plant hŷn am fywyd T Llew Jones ac am ei lyfrau a'i farddoniaeth.

Gwasanaeth Diolchgarwch



Eleni eto cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Rehoboth, Taliesin gydag Ysgol Talybont, ac am y tro cyntaf gydag Ysgol Craig yr Wylfa. Bu plant o'r tair ysgol yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth. Gwahoddwyd Mr Efan Williams i'r gwasanaeth i siarad gyda'r plant. Gwnaethpwyd casgliad tuag at Apêl Newyn Dwyrain Africa. Braf iawn oedd gweld y capel yn llawn o rieni a ffrindiau'r tair ysgol gan gynnwys lawer o henoed yr ardal.

Ffoto Aber

Fel rhan o Wyl Ffotograffiaeth Ffoto Aber, daeth Ruth-Jên i'r ysgol i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 2. Cafwyd prynhawn hwyliog iawn yn defnyddio camerâu digidol, yn dysgu beth sy'n gwneud llun da a mynd allan i dynnu ffotograffau ar dir yr ysgol. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn a chafwyd sioe o'r lluniau nôl yn yr ysgol. Roedd y ffotograffau yn effeithiol iawn yn enwedig y rhai a dynnwyd o dan y coed ar y cae.

Noye's Fludd

Un o uchafbwyntiau'r hanner tymor yma oedd y cyfle unigryw a gafodd disgyblion Dosbarth Miss Jones i gymeryd rhan mewn opera Benjamin Britten sef Noye's Fludd. Bu'r plant yn brysur iawn yn dysgu'r caneuon ac yn ymarfer gyda phlant eraill o rai o Ysgolion Cynradd Aberystwyth. Cymeront ran mewn dau berfformiad yn y Neuadd Fawr a braf iawn oedd gweld y plant ar y llwyfan yn canu ac yn actio'n hyderus. Tybed a welwn ni rai o'r plant yn canu opera yn broffesiynol rhyw ddiwrnod ar ôl cael blas ar opera yn Noye's Fludd?

The Wizard of Oz

Aeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i Ysgol Penglais i weld ei sioe flynyddol sef 'The Wizard of Oz'. Mwynhaodd y plant a'r athrawon yn enfawr a hyfryd iawn oedd gweld cymaint o gyn-ddisgyblion yn cymeryd rhan yn y sioe. Llongyfarchiadau mawr iddynt am sioe arben-nig!

Plant y Figyn

Ar ôl imi yn fy ngweddï yn angladd fy hen ffrind Jano Bwlchydwyallt ym Methel, Tal-y-bont, yn Ionawr 2006, gyfeirio ati fel un o blant y figyn roedd ei phlant yn ddiolchgar am y sylw. Roedd Jano wedi'i magu ym Mhenpompren ar ffordd y figyn o Langynfelyn i Ynys-las, nid nepell o Danllan cartref William Stephens ei thad. A minnau wedi gweld y figyn bob dydd yn ystod fy mlynedd oedd cyntaf o'm cartref yn Stryd Isa (gwell na Terrace Row) ac wedi chwarae'n gyson yno rwy'n falch fy mod innau'n un o blant y figyn. Ie, y figyn a ddywedem ac nid Cors Fochno, a bûm yn dyfalu a oedd y gair yn wybyddus mewn rhan-nau eraill o Gymru.

Yn fuan wedi imi ddechrau ar fy ngweinidogaeth yn Llanuwchllyn ym Medi 1967 euthum i bregethu i gapel Gellioedd, Llangwm, ac ar ôl yr oedfa euthum i de gyda Robin a Jane (y ddau o Lanuwchllyn) i de i fferm Llechwedd Figyn sydd ar ffin Meirionnydd a Dinbych. A chyn bo hir euthum dros y Berwyn i wasanaethu mewn oedfa Ddiolchgarwch yn ardal Ann Griffiths a chael mynd gyda theulu fferm Pendugwm i swper. Yno y maged John Davies fu'n genhadwr yn Tahiti am fwy hanner canrif, cyfaill Ann Dolwar Fach a'i theulu, a chyfaill John Hughes, Pontrobert, y pregethwr nodedig a'r emynydd a elwid yn John y Figyn ar ôl ei gartref Pen-y-Figyn. Ym Mhendugwm y cynhelid y seiadau cynnar a byddai Ruth morwyn Dolwar Fach a ddaeth yn wraig i John y Figyn yn y cwmni hefyd.

Bu un o ffosydd dwfn a llydan y figyn ar dir Tanllan bron bod yn ddiwedd y daith i mi pan oeddwn yn naw oed. Am fod fy nhad yn yr Awyrlu roedd yn rhaid i mam weithio'n galed i gynnal Iorwerth a minnau ac at y chwiorydd Sarah ac Eunice Stephens a'u brawd David Valentine, y byddai'n mynd i olchi a glanhau. Byddai 'mrawd bach a minnau'n mynd gyda hi ar y Sadwrn ac yn ystod gwyliu ysgol a byddai Dei yn rhoi digon o waith inni. Un prynhawn adeg y cynhaeaf gwair roeddwn yn mynd ar fy meic a dau fag o fwyd ar y bar croes i un o'r caeau i gyfeiriad y lein pan aeth yr olwyn flaen i

dwll a minnau a'r beic yn mynd dros y dibyn i'r ffos. Ar ôl cryn ymdrech llwyddais i gyrraedd y lan a thynnu'r beic ar fy ôl gan ddiolch nad oedd fawr o ddŵr yn y ffos a hithau'n haf poeth neu mi fyddwn wedi boddi efallai. Cafodd Dei fraw fy ngweld yn fwd o'm gwddw i'm traed a rhoddodd gawod imi dan yr hôsbeip!

Roedd y daith o'n cartref i Danllan yn un ddiddorol – lawr rhiw'r Romans, heibio cartref Annie Rees. a heibio un o'r caeau lle bu tîm pêl-droed Taliesin yn chwarae am gyfnod. Fy ngwaith i oedd mynd ar fore Sadwrn i weithdy Tim y saer i nôl sacheidiau o flawd llif i'w defnyddio i farcio'r maes erbyn brwydr y prynhawn. Os byddai'r gwynt yn gryf ar draws y figyn byddai fy ngwaith yn ofer.

Pan na fyddai'r reffari wrth fodd y cefnogwyr byddent yn bygwth ei daflu i un o'r ffosydd! O sôn am bêl-droed bydd fy nghyfoedion yn cofio am fy nghyfaill hoff Harri, yn esgyn i ben hen domen y romans a cheisio efelychu Raymond Glendenning wrth sylwebu. Gyda Harri wedyn i glywed canlyniadau'r dydd yn cael eu cyflwyno ar y radio gan Eamon Andrews ac yntau'n cofio sgôr pob gêm rhwng 92 o dimau. Ond nos Sul yn Rehoboth wrth gael trafferth i gofio adnod i'w hadrodd cwestiwn Harri i mi oedd 'Bil pam dwi'n cofio canlyniad pob gêm ond yn anghofio'r adnod'!

Roedd cyrraedd Neuadd yr Ynys yn anodd am fod llyn o ddŵr wedi crynhoi ar waelod y rhiw ambell dro. Rwy'n cofio mam yn gwrthio hen bram a Iorwerth ynddo drwy'r dŵr a'm cario innau wedyn. I'r Nuodd (fel y galwem y fferm) yn ugain oed ym 1932 y daeth 'nhad ar ei feic o Flaen-plwyf i weithio fel gwas i David Jenkins, a'i frawd J.M. wedyn. Bydd raid dychwelyd at ei waith gyda'r gwartheg duon enwog mewn llith arall. Un o'r profiadau a'n cynhyrfodd adeg rhyfel oedd gweld awyren yn gorfod disgyn ar y cae dan y ffermdy a minnau'n cael ein cadw rhag mynd yn rhy agos ati. Bu llawer o fynd a dod hyd ffordd y figyn bryd hynny. Parhawn ar ffordd y figyn y tro nesaf. W.J.E.

Parti Calan Gaeaf y Cylch Meithrin



Daeth tyrfa fawr o wrachod ag ysbrydion yr ardal i'r Neuadd Goffa ar gyfer parti Calan Gaeaf

y Cylch Meithrin. Bu cystadlu brwd yn y cystadleuthau gwisg ffansi a'r bwmpen orau. Diolch

yn fawr i dair o ffrindiau'r Cylch sef Wendy, Sue a Lucille am gytuno i feirniadu. Cafwyd hwyl

yn chwarae gêmiau a phawb yn mynd adref wedi cael llond bol o gacennau, taffi a losin.

Chwith: Rhoswen Evans
gyda'i phwmpen fuddugol

Mathew Davies
Plymio a Gwresogi

07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio
Nwy • Olew • Tanwydd Soler • Solar

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

**argraffu da
am bris da**

y/Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT	TEIARS HUW LEWIS TYRES
Glanvrafon	Rhodfa'r Parc	
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wfan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.		
HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774		

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

'Y Tynnwr Llundiau' oedd teitl noson agoriadol tymor newydd y gangen ar nos Lun, 19 Medi pan groesawodd y Llywydd, Enid Gruffudd, y gŵr gwadd am y noson, sef Arvid Parry Jones. Daeth ei wraig, Gwenllian, yn gwmni iddo, a chafwyd noson bleserus a hwyliog iawn wrth wrando arno yn dweud sut yr aeth ati i fod yn ffotograffydd prof-fesiynol, gan rannu ei atgofion am ei waith fel tynnwr lluniau. Diolchwyd iddo gan Falyri Jenkins. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor i glori'r noson.

Ar nos Lun, 17 Hydref, ymwelwyd â Siop y Cigydd yn Rhydy-pennau. Cawsom ein croesawu yno gan Meirion, a dangosodd Heath ei ddawn wrth dorri darnau o gig i'w coginio. Cafwyd bwffe ardderchog yn y caffe i ddilyn, a diolchodd y Llywydd i'r ddau ŵr am noson bleserus iawn.



Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Ceredigion

Dydd Llyn 24-10-2011 oedd dyddiad cychwyn arbrawf ŵyn hyrddod y Gymdeithas. Daeth 17 o'r aelodau â 50 o ŵyn hyrddod i'r Prawf, a bydd rhain yn cyd-bori ar 34 acer o dir glas, hyd at ddiwedd mis Ebrill. Mae'r tir yma'n eiddo i Mr. Cledwyn Owen, Bodermud Isaf, Aberdaron, Gwynedd, ac nid yw yn cadw defaid ei hun. Cyflwynir Tarian Rhosgoch i'r oen hwrdd mwyaf addawol, gyda'r aelodau'n cymeryd rhan, yn dyfarnu 3 pwynt i'r gorau, 2 i'r ail ac 1 i'r trydydd. 'Roedd y gystadleuaeth o uchel-radd, gyda dau oen hwrdd yn ennill 25 pwynt yr un, sef oen hwrdd tag 435 o Dynygraig – un Enoc, a tag 945 o Hirnant, Ponterwyd – un Bryn Jones.

Bydd yr ŵyn hyrddod yn cael eu pwyso gan swyddogion Hybu Cig Cymru bedair gwaith yn ystod y gaeaf, a'r indecs yn cael ei weithio allan ganddynt ar gyfer pob oen hwrdd.

Gobeithio na fydd y gaeaf mor galed a fu gaeaf 2011. Geraint Evans.



Gwilym Jenkins, Llywydd y Gymdeithas, yn cyflwyno Tarian Rhosgoch i Enoc Tynygraig a Bryn Hirnant, Ponterwyd.

Cangen Plaid Cymru Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar nos Fercher, 2 Tachwedd yn y Neuadd Goffa. Bwriad y cyfarfod oedd cynnig y cyfle i'r aelodau fynegi eu barn a rhannu syniadau am y ffordd orau ymlaen i Blaid Cymru fel rhan o ymgynghoriad y Blaid, Camu 'Mlaen: Adfywio'r Blaid i Gymru a gaiff ei arwain gan Dr Eurfyl ap Gwilym. Arweinwyd y drafodaeth gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn a chafwyd sgwrsio brwd a bywiog ar feysydd eang yn cynnwys Gweledigaeth, Strategaeth a Pholisi, Cyfathrebu ag Ymgynghu.

Bydd y gangen yn cymryd rhan flaenllaw yn y Ffair Cynnyrch Gwlad a Chartref a gynhelir yn y Morlan, Aberystwyth ddydd Sadwrn 3 Rhagfyr rhwng 10.30 a 2.00. Cofiwch alw heibio.

Eglwys Bethel, Tal-y-bont

Ar ddwy nos Sul yn olynol ym mis Hydref, daeth nifer dda o aelodau a ffrindiau Bethel at ei gilydd i fwynhau dau achlysur gwahanol – y cyntaf yn y capel ei hun, a'r ail yn y Neuadd Goffa – gyda'r bwriad o godi arian ar gyfer Apêl Dwyrain Affrica. Ar 9 Hydref, croesawyd Cwmni'r Morlan, Aberystwyth, i berfformio cyflwyniad diddorol ar Fywyd a Gwaith Waldo Williams, dan gyfarwyddyd Dr Geraint Evans, Garnwen. Y nos Sul dilynol, 16 Hydref, roedd gwaelod y Neuadd Goffa'n llawn dop o bobl a phlant o bob oed oedd wedi dod at ei gilydd i fwynhau Swper Cynhaef blasus, a baratowyd dan ofal Medi James, Llan-nerch, a'i thim gweithgar. Ar ôl mwynhau'r bwyd a chlono gyda ffrindiau, cafwyd cwis hwyliog wedi'i drefnu gan Phil a Megan, Gwynionydd, lle cafodd pawb gyfle i ddangos eu gwybodaeth – a'u hanwybodaeth rhonc! – ar nifer o bynciau diddorol ac amrywiol. Carai swyddogion Bethel ddiolch i bawb – yn aelodau a chyfeillion o'r pentref a'r ardal gyfagos – am eu cefnogaeth hael i'r apêl. Rhwng y ddwy noson roedd cyfanswm y casgliad yn £474.



Eich Arbennigwr Celf a Fframio Lleol

Peter Fleming
High Street, North, SY24 3JZ
Tel: 01970 871 042

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**




Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292



Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

Pennod Newydd i'r Llew Du

Un o gyfrinachau mawr Tal-y-bont ar hyn o bryd yw dirgelwch y chwyldro sydd ar waith tu ôl i waliau Gwesty'r Llew Du. Gwelwyd eisoes y gwelliannau mawr ar y tu allan. Hir yw pob ymaros wrth gwrs ond buan iawn y bydd y cyfan yn cael ei ddatgelu gyda'r gwesty yn agor ei ddrysau ar ei newydd wedd ddiwedd Tachwedd.

O gofio fod Gwesty'r Llew Du dros 160 mlwydd oed mae wedi gweld sawl tro ar fyd ar hyd y blynyddoedd, ac fel y daeth Sion a Catrin, y perchnogion newydd i ddeall mewn dim o dro, roedd hynny'n cynnwys sawl cot o baent a thrwch degawdau o bapur wal! Er mwyn rhyddhau gwir botensial yr adeilad bu rhaid dechrau o'r dechrau'n deg trwy fynd nôl i gragen wreiddiol yr adeilad er mwyn medru creu rhywbeth ffresha a thanio o'r newydd hen gymeriad arbennig y lleoliad.

Y bwriad wrth droi'r hen yn newydd oedd creu lle braf a chyfoes i fwyta a chanddo naw Gymreig modern. Mae'r bwyty newydd gyda'i lorïau pren derw drwyddo a'i awyrgylch agored a chynnes yn adlewyrchu hynny i'r dim. Fe fydd y bwyty newydd yn medru eistedd hyd at 42 o bobl ar gyfer eisteddiad arferol gan gynyddu hyd at 60 o bobl ar gyfer acysuron arbennig megis parti, cinio neu briodas.

Bywd da sy'n creu bwyty poblogaidd wrth gwrs a medrwn edrych ymlaen at flasau seigiau diddorol o'r gegin newydd sbon fydd yn arddangos y gorau sydd gan Gymru i gynnig. Bydd y fwydlen dymhorol yn cael ei newid yn rheolaidd ac yn cynnig amrywiaeth o fwydydd clasurol Cymreig gyda thwist modern i'r arlwy. Yn dilyn digoni'r bol yn y bwyty bydd cyfle i ymlacio a sgwrsio yn y lolfâ gysurus.

Er mwyn gwneud y fenter yn un gwirioneddol gymunedol fe fydd yna ymdrech hefyd i ddefnyddio cynnyrch lleol pryd bynnag y bo modd. Gyda hyn mewn golwg fe fyddai Sion a Catrin yn falch iawn o glywed oddi wrthy chi arddwyr toreithiog ardal Papur Pawb os oes gennych fwy nach gwala o gynnyrch llyisiau a rhai dros ben i'w gwerthu.

Bydd cyfle o hyd wrth gwrs i alw mewn am beint tawel neu



Gwesty'r Llew Du Black Lion Hotel

lasiaid o win yn y bar cartrefol, lle bydd dewis da o gwrw casgen, cwrw cyfandirol, gwirodydd a dewis helaeth o winoedd. Er mwyn creu awyrgylch gwir Gymreig crëwyd llawr traddodiadol o lechi a fu'n wreiddiol ar lawr nifer o hen ffermdai'r ardal a chomisynwyd bar unigryw a thrawiadol a gerfiwyd gan saer dodrefn lleol. Bydd modd archebu cinio neu swper ysgafn ffres o'r fwydlen bar arbennig, gyda lle i eistedd yn glud a jycôs yng nghyffiniau'r bar ger y stôf goed neu'n edrych allan ar y 'patshyn glas' ar y teras llechi newydd tu allan.

Er mwyn bod yn ased gwirioneddol i'r pentref mae Sion a Catrin wedi mynd ati i gynllunio a chreu lle braf i ymlacio a chyfarfod beth bynnag yr achlysur a hynny saith diwrnod yr wythnos. Bydd cyfle i daro mewn am goffi ffres neu am de prynhawn, am ginio canol dydd neu am bryd gyda'r nos, neu i ymlacio ar y Sul gyda chinio arbennig. Wrth i'r fwydlen newid gyda'r tymor fe fydd modd dychwelyd dro ar ôl tro a thrio rhywbeth newydd.

Fel y gellir dychmygu mae'r gwelliannau yn y Llew Du yn ffrwyth oriau o waith caled. Hoffai Sion a Catrin ddiolch i bawb, yn deulu a ffrindiau am eu cefnogaeth ac i'r byddin prysur o grefftwy'r gweithwyr lleol sydd wedi bod wrthi'n ddiwyd gyda'r prosiect. Braf yw medru nodi eu bod wedi medru cefnogi'r economi leol drwy gyflogi gweithwyr

o'r ardal fel yr adeiladwyr Thomas & Rowlands, T N Thomas, seiri o gwmni Orford & Rowell a Barry Davies, y trydanwr Adam S Martin a'r plymiwr Ian Pugh. Fe fydd y fenter newydd yn cyflogi dros ddeg o bobl, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr yn yr hinsawdd sydd ohoni ac roedd Sion a Catrin wedi eu calonogi gyda'r nifer sylweddol o bobl a wnaeth ymgeisio am y swyddi ac am ddiolch i bawb a ddangosodd ddiddordeb. Nid yw'r weledi-gaeth wedi'i chyflawni'n llawn eto gyda nifer o ddatblygiadau cyffrous i ddod yn 2012. Y nod tymor hir ydy datblygu gwesty 'boutique' unigryw gan adnewyddu naw ystafell wely en suite i greu lle aros cyfforddus.

Mae'r fwydlen 'Dolig eisoes allan, ac mae cynlluniau cyffrous ar y gweill hefyd ar gyfer nos Calan gyda threfniadau ar gyfer pryd bydd arbennig ac adloniant byw. Bydd manylion pellach yn rhifyn nesaf Papur Pawb ac ar y wefan newydd www.gwesty-llewdu.com fydd yn mynd yn fyw'n fuan.

Felly os ydych chi'n awyddus i fod gyda'r cyntaf i brofi'r Llew Du newydd yna medrwn chweco bwrdd trwy gysylltu ar croeso@gwestyllewdu.com neu drwy ffonio 01970 832 555 unwaith y bydd y gwesty wedi agor. Dymunwn ein gorau i'r fenter gan edrych ymlaen yn chwilfrydig at weld ail agor un o adeiladau eiconig y pentref ar ei newydd wedd..

Byd yr Aderyn Bach

Ar nos Sul y 9fed o Hydref yng Nghapel Bethel, bu Cwmni'r Morlan yn cyflwyno Byd yr Aderyn Bach, addasiad Geraint Evans, Garnwen o sgript Hefin Wyn.

Bywyd a gwaith Waldo Williams - bardd mawr Sir Benfro - oedd y testyn, a chawsom ein tywys yn rhwydd o'i eni yn Hwlfordd yn 1904, hyd ei farwolaeth yn 1971. Gan ddefnyddio cymysgedd o sain a lluniau yn ogystal a llefaru graenus, cawsom bortread cyflawn ohono: ei gefndir cynnar ar aelwyd oedd yn uniaith Saesneg, yna symud i Fynachlog Ddu a bod ym mhlith cymdeithas oedd yn hollol Gymreig ei nawws a'i iaith; ei yrfa fel athro, a'i safiad yn erbyn rhyfel; y tristwch o golli ei briod ar ôl dwy flynydd ac hefyd ei ymgais aflwyddianus i fod yn aelod seneddol.

Cawsom yr hanes yma i gyd - a mwy, a'r cyfan yn llifo'n rhwydd o un hanesyn i'r llall. Roedd y lleisiau'n cydweddidi'n naturiol, a'r cyflwyniad yn slic a gafaellgar. Wrth rheswm, dyfynwyd yn hael o'i gerddi, ond dim dyna'r unig ffynhonnell, ac ym mhob achos, roedd y dyfyniadau a ddewiswyd yn gryno a phwrpasol.

I gloi, teimlaf fod y cyflwyniad yma yn adlewyrchu y gofeb i Waldo a geir ar fynyddodd y Preseli - yn syml ac effeithiol - ac felly, yn deilwng i un o feirdd mwyaf ac anwylaf y Gymraeg. D.J.

Bistro
Gannets



Bywd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Gwasanaeth Tyllino Proffesiynol
yng nghysur eich cartref
yn arbenigo mewn tyllino corff ac ar gyfer chwaraeon
Am fanylion pellach cysylltwch â Michelle ar y ffon **01654 781314** or **07984 501479**
michellejsymes@btinternet.com
Prisiau cystadleuol a chanolwyr lleol ar gael

27 Mehefin 1631

Pan glywais am y drychineb ddychrynlyd yng ngwaith glo'r Gleision, Cwm Tawe, ym mis Medi, lle bu pedwar o ddynion farw, cofiais am erthygl o waith John Lewis, awdur y gyfrol Born on a Perilous Rock. Ynddi mae'n cyfeirio at ddigwyddiad tebyg, ond gyda chanlyniadau llai trychinebus, yn Nhal-y-bont ar 27 Mehefin 1631.

Yn y flwyddyn honno, roedd mwynloddwyr Tal-y-bont yn tyllu i mewn i Allt-y-grib i chwilio am feneralau gwerthfawr. Dan ofalaeth Thomas Bushall, un o ffefrynnau Siarl I, yr oedd gweithfeydd y cylch yn y cyfnod hwn. Yn dilyn nifer o flynyddoedd aflwyddiannus, roedd y rhan fwyaf o'r gweithfeydd dan yr Allt mewn cyflwr truenus, yn llawn dŵr ac yn beryglus tu hwnt.

Yn y 1560au daeth Daniel Hochstetter – Almaenwr ac arbenigwr ar gloddio – i Brydain ar wahoddiad y frenhines Elizabeth I, er mwyn darganfod a datblygu gweithfeydd mwynloddio. Un o'i syniadau oedd tyllu i mewn i'r bryn o lawr y glyn gan greu lefel, neu 'adit', er mwyn clirio'r dŵr oedd y tu mewn. Bron i ganrif yn ddiweddarach aeth Bushall ati i wneud hynny. Dywedir iddynt fod wrthi am yn agos i bedair blynedd cyn llwyddo'n annisgwyl ar 27 Mehefin 1631.

Mewn llythyr gan ei asiant yn Nhal-y-bont at Bushall, ceir disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd. Yn ôl pob tebyg, roedd pedwar dyn yn gweithio'r noson honno ac wedi dod allan at geg yr adit er mwyn cael mwyn; doedd hi ddim yn ddiogel i ysmegu yn y ffas rhag ofn i nwy ffirwydro. Yn sydyn, clywyd y sŵn mwyaf dychrynlyd – credent i ddechrau mai taran oedd hi, ond gwaeddodd gŵr o'r enw Bartholemew Crocker, 'The worke is holed, come let us away!' Yn wir, roedd yr hyn a ddigwyddodd yng Nghil-y-bebyll wedi digwydd yn Nhal-y-bont bron i 400 mlynedd yn gynharach.

Bu ond y dim i'r dynion gael eu lladd. Bu raid iddynt redeg nerth eu traed, a llwyddo i gyrraedd lle diogel ychydig amser cyn i don o ddŵr budr, llathen o uchder, gyrraedd gyda'r fath rym nes 'affrighting all the people of Talybont who heard the noise and felt the water in their houses'.

Enghraifft o hanes yn ei ailadrodd ei hun oedd y digwyddiad angheuol yng Nghwm Tawe.

Rhys Huws

Mathew Davies
Plymio a Gwresogi



07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio
Nwy • Olew • Tanwydd Solet • Solar

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Gwilym Huws,
Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr,
Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion,
SY24 5EN

erbyn dydd Llun 9 Ionawr 2012

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd nos Lun 31 Hydref gan y Cadeirydd, y Cyngorydd Eric Roberts; estynnodd ei longyfarchiadau hefyd i'r Cyngorydd Gerwyn Jones ar enedigaeth merch fach, Swyn Tirion.

Polisi Tai Lleol

Adroddwyd fod y Cyngor bellach wedi derbyn llythyr ffurfiol oddi wrth Tai Ceredigion yn cadarnhau iddynt fabwysiadu Polisi Dyrannu Arbennig ar gyfer y datblygiad tai cymdeithasol arfaethedig ym Maes-y-deri. Mor belled, nid yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn canlyniadau'r Arolwg Tai Lleol a drefnwyd gan yr Hwylusydd Tai Gwledig. Yn y cyfamser, roedd y cynnig a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Ellen ap Gwynn i Gyngor Sir Ceredigion i fabwysiadu Polisi Tai Lleol ledled ardaloedd gwledig y sir wedi'i ohirio am y tro.

Cynnal a Chadw'r Gaeaf

Nodwyd fod Cyngor Sir Ceredigion eisoes yn darparu 12 o finiau halen ar ffyrdd gwledig o fewn y gymuned, ond fel yr adroddwyd yng nghyfarfod mis Medi byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned ddarparu unrhyw finiau halen ychwanegol y teimlai fod eu hangen. Cytunwyd fod y Cyngor Cymuned yn pwrcau dau fin halen eleni, y naill i'w osod ger y tro ar bwys y Cae Bach a'r llall gerllaw hysbysfwrdd Bont-goch.

Mannau Parcio Newydd i Faes-y-deri

Adroddodd y Cadeirydd fod Tai Ceredigion wedi trefnu sesiwn i drigolion Maes-y-deri fwrw golwg ar y cynlluniau diwygiedig ar gyfer gwella'r gofod parcio ceir ym Maes-y-deri. Tynnwyd sylw'r Swyddogion at yr anghysondeb rhwng y cynlluniau hyn a'r cais cynllunio i godi byngalo newydd ar bwys y Cae Bach. Fel arall, credir y bydd y cynlluniau hyn yn welliant mawr.

Cynllunio

Gwnaed sylwadau ar bedwar cais cynllunio newydd, sef: codi annedd preswyl ar bwys Trem y rhos, Bont-goch; datblygu cynllun trydan hydro ym Moelgolomen; adeiladu modurdu a sied ym Mhen-lôn, Tal-y-bont ac addasu gweddill hen ysgubor y Llew Du yn annedd preswyl a garej.

Adroddwyd fod Tai Ceredigion Cyf wedi anfon cais diwygiedig yn dilyn dyfarniad Pwyllgor Rheoli Datblygu Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn iddynt ailgyflwyno'r cais am bedwar annedd preswyl yn lle'r chwech gwreiddiol ym Maes-y-deri. Tra oedd aelodau'r Cyngor Cymuned yn derbyn bod y cais diwygiedig yn mynd rhan o'r ffordd i gwrdd â rhai o'r prif ofidiau a godwyd gan y Cyngor parthed y cais gwreiddiol (e.e. dwysedd y datblygiad; yr angen am Bolisi Tai Lleol; diffyg manau parcio i'r trigolion presennol; colli preifatrwydd), byddai'r datblygiad arfaethedig yn parhau i amddifadu'r plant lleiaf o le chwarae diogel ger eu cartrefi, a byddai'r cerbydau ychwanegol fyddai'n defnyddio'r fynedfa gul i'r rhan hon o'r stad yn parhau i'w gwneud yn beryglus i gerddwyr a modurwyr. Cytunwyd i anfon sylwadau i'r perwyl hwn at yr Awdurdod Cynllunio.

Y Fynwent

Adroddwyd fod tri neu bedwar o deuluoedd rhai a gladdwyd yn rhan newydd y fynwent yn torri'r rheolau drwy blannu gardd neu osod potiau blodau ar y borfa o flaen y beddau. Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at y teuluoedd yn tynnu eu sylw at hyn.

Llwybrau

Derbyniwyd cwynion am gyflwr dau lwybr cyhoeddus, sef y llwybr beiciau rhwng rhwng Penrhwi a Llysnyr a'r llwybr troed rhwng Gwaith Bwlchglas ac Allt-ddu. Cytunwyd i anfon y cwynion ymlaen at y Cyngor Sir. Hefyd gofynnwyd i'r Clerc wneud arolwg dichonoldeb i agor llwybr troed newydd i hwyluso mynediad i'r Fynwent i drigolion Tal-y-bont o Faes-y-deri. Hefyd, pe gellid manteisio ar y Gronfa Gwella Pentrefi, dylid holi am ymarferoldeb ymestyn y llwybr ar ochr ogleddol y fynwent hyd at ffordd werdd ar bwys Erglodd mewn project ar y cyd gyda Chyngor Cymuned Llanfynyfelyn.

Chwaraeon

Hynt a Helynt Clwb Pêl-droed Tal-y-bont



Anthony Southgate

hynny'n anffodus braidd, yn erbyn Llandysul ar Gae'r Odyn Galch ar 29 Hydref.

Mae'r rheolwr, Anthony Southgate, yn parhau i fod mor ymroddedig i'r achos ag erioed a braf fyddai gweld rhai o'r chwaraewyr iau yn rhoi cymaint o'u hamser a'u hegri i'r clwb ag ef.

'Pencampwyr y Canolbarth', dyna oedd y pennawd ar dudalen blaen Papur Pawb ym Mehefin 2001, wrth i'r ardal ddathlu bud-dugoliaeth fawr Tal-y-bont yn rownd derfynol Cwpan Emrys Morgan, prif gystadleuaeth Canolbarth Cymru. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, nid yw'r sefyllfa mor llewyrchus, gyda'r tîm yn llechu yng ngwaelodion ail Adran Cynghair Cambrian Tyres. Hyd yn hyn enillwyd dwy gêm yn unig y tymor hwn, yn erbyn Llan-non a Phenrhyn-coch, a chwarae un gêm gyfartal, yn erbyn eilyddion y Borth. Collwyd y dair gêm arall. Mae'r tîm hefyd allan o Gwpan Ceredigion wedi i'r bechgyn golli 3-2, a

Tal-y-bont Dan 11



Dyma dîm dan 11 Tal-y-bont (blwyddyn 6/7) sy'n cael ei reoli gan Mike Putt. Llwyddodd y tîm i gyrraedd rownd gogynderfynol Twrna-maint Gary Pugh yn gynharach yn y tymor ac yn y gynghrair curwyd tîm cryf iawn Llewod Tregaron 3-1 yn ddiweddar, gyda Tyrone ac Ashley yn sgorio'r goliau. Mae Mike a'r tîm wedi trefnu râs hwyl o amgylch pentref Tal-y-bont ar 18 Tachwedd er mwyn codi arian ar gyfer Plant mewn Angen. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mike ar 07857663240 neu gwyliwch allan am y posteri a chaiff eu gosod yma ac acw. Cofiwch eu cefnogi.

Capten

Pob lwc i Peter Basnett, Llwyn y Gog, Bont-goch, sydd newydd gychwyn ar gyfnod cyffrous fel capten Clwb Golff Borth ac Ynys-las.

Gwobr i George

Llongyfarchiadau i George Barron, Brynawel, Tal-y-bont, ar gipio tlws yr 'Officers' Trophy' mewn cystadleuaeth rhyngwladol



Plaid Cymru
Ceredigion

FFAIR CYNNYRCH GWLAD A CHARTREF

Canolfan y Morlan, Aberystwyth

Dydd Sadwrn 3 Rhagfyr 2011,
10.30-2.00

- 10.30-11.30 Coffi a mins pei
12.00-1.30 Cinio cawl a bara
- Stondinau amrywiol
 - Gweithgareddau plant
 - Raffi Fawr

Croeso cynnes i bawb!

yn Grafham Water, Northumber-land. George yw hyfforddwr tîm pysgota plu Cymru.

Hanner Marathon Caerdydd

Llongyfarchiadau i Gwenallt Llwyd Ifan a redodd hanner mar-athon Caerdydd am y tro cyntaf eleni ar y 9fed o Hydref, a hynny mewn 1 awr a 44 munud gan godi dros £400 i elusen Ty Hafan.



Gwenallt Llwyd Ifan

Llwyddiant ar Gefn Ceffyll

Da iawn Ffion Jones, Berth-lywd ar ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth 'Dressage' yng Ng-hanolfan Marchogaeth Rheidiol, allan o 23 o gystadlwyr. Daeth Amanda Charlesworth yn 6ed.



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**
4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR

